

Pwyllgor Adnoddau Dynol (Cyfarfod Arbennig)

27 Gorffennaf 2022

Yn Bresennol (yn bersonol)

Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd S Hancock, Mr GA Jones,
Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd PJ Morgan a'r Cynghorydd A Wilcox.

Yn Bresennol (o bell)

Dr R Heath-Davies a Mrs J James.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro ac O Bell: 11.30a.m. – 12.20p.m.)

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nid oedd unrhyw ymddiheuriad am fod yn absennol.

2. **Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

3. **Eithrio'r Cyhoedd**

Penderfynwyd eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

4. **Newidiadau i strwythur staff yr Awdurdod**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y rhan fwyaf o'r strwythur newydd wedi'i gytuno yn y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 25 Mai 2022, ond bod tri mater yn dal heb eu datrys. Roedd yr adroddiad oedd ger eu bron yn cyflwyno cynigion ar gyfer cytundeb ar ddau o'r materion hynny.

O ran y gwrthgynnig i sefydlu tîm iechyd a lles i reoli gwaith y Cydlynnydd Cadair Olwyn Traeth a Symudedd Awyr Agored; Swyddog Dewch i Gerdded (gan gynnwys prosiect Gorllewin Cymru 'Cerdded er Lles'); a'r Tîm Gwreiddiau at Adferiad, argymhellwyd y dylid cytuno ar hyn yn rhannol drwy ond cynnwys y Cydlynnydd Cadair Olwyn Traeth a Symudedd Awyr Agored yn y tîm. Roedd yr Aelodau yn cefnogi'r safbwynt hwn.

Roedd yr ail fater yn ymwneud â'r cynnig o fewn y strwythur drafft i greu Adran Pobl a Llywodraethu fyddai'n cynnwys y Tîm AD, y Tîm Gwasanaethau Democrataidd a'r Cydlynnydd Gwirfoddolwyr; ni fyddai'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid sydd ar hyn o bryd yn atebol i'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd yn cael ei gynnwys yn yr adran newydd. Roedd gwrthgynnig wedi dod i law na ddylid gwneud



unrhyw newidiadau o gwbl i'r strwythur presennol, fodd bynnag argymhellwyd derbyn hynny yn rhannol drwy gytuno i beidio â symud y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid, ond y dylid gweithredu'r newid i'r Tîm Pobl a Llywodraethu.

Roedd yr Aelodau o'r farn, fodd bynnag, bod pobl a llywodraethu yn ddwy rôl ar wahân ac y dylai'r ddau fod yn atebol yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, ac y gallai uno'r gwasanaethau hyn arwain at risg i'r sefydliad o ran llywodraethu.

Nodwyd bod y mater sy'n weddill a heb ei ddatrys, mewn perthynas â newidiadau i'r strwythur gweinyddiaeth, yn dal i gael ei ystyried ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor maes o law.

Penderfynwyd:

- a) Sefydlu Tîm Iechyd a Lles, o fewn yr Adran Ymgysylltu a Chynhwysiant, a chynnwys y Cydlynnydd Cadair Olwyn Traeth a Symudedd Awyr Agored yn y Tîm hwnnw.
- b) Na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i rolau'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd na'r Rheolwr Adnoddau Dynol (AD), ac eithrio bod y Cydlynnydd Gwirfoddolwyr yn atebol i'r Rheolwr AD.